# Twyni deinamig

Tirweddau gwyllt, eiconig yw twyni. Maen nhw'n fwrlwm o fioamrywiaeth, lle mae carpedi tegeirian yn dal i oroesi ochr yn ochr â gloÿnnod byw, ehedyddion ac amryw byd o bryfed dan fygythiad. Mae ymwelwyr a phobl leol yn gwerthfawrogi twyni am eu cymeriad unigryw ac maen nhw'n gefnlen hyfryd i ddiwrnod mas ar y traeth a lle chwarae naturiol braf i bob plentyn.

Mae gan gyn-dwyni iach ddigon o dywod moel ac maen nhw'n symud yn gyson. Caiff bryniau tywod eu hadeiladu, eu dymchwel neu eu chwythu i ffwrdd a'u hailgreu eto gan y gwynt. Mae cymunedau unigryw ac arbenigol o blanhigion ac infertebratau yn ail-gytrefu'n gyson yn yr awyr agored.

Ond dros yr 80 mlynedd diwethaf, mae bron i 90% o'r tywod agored wedi diflannu a'i ddisodli gan laswellt a phrysg dwys. O ganlyniad, mae'r twyni wedi gorsefydlu ac mae bywyd gwyllt prin yn diflannu.

Achoswyd y newid hwn gan ffactorau fel cynllunio moresg, cyflwyno planhigion anfrodorol, diffyg porfeydd traddodiadol, dirywiad y boblogaeth cwningod a llygredd aer.

## Gweithredu dros dwyni tywod

Bydd prosiect Twyni Byw yn cyflawni rhaglen waith ymarferol uchelgeisiol ar y safleoedd o bwys rhyngwladol hyn trwy:

- ail-broffilio twyni i ganiatáu i dywod symud eto
- gostwng wyneb llaciau sych (pantiau) i ail-greu pyllau a chynefinoedd gwlyb
- hyrwyddo pori cynaliadwy gan dda byw a chwningod
- symud prysgwydd a rhywogaethau anfrodorol goresgynnol

Bydd rhaglen helaeth o fonitro cyn ac ar ôl hefyd i olrhain cynnydd y prosiect.

Bydd prosiect Twyni Byw yn cynnwys cymunedau lleol ac yn codi dealltwriaeth o werth a phwysigrwydd twyni tywod i bobl a'r amgylchedd. Bydd y prosiect yn annog pawb i rannu gwybodaeth ar reolaeth twyni tywod gydag eraill yng Nghymru a thu hwnt.






# Nodau llesiant Cymru

Yn ogystal â bod yn gronfeydd bioamrywiaeth, mae twyni tywod Cymru'n helpu i warchod ein hamgylchedd fel amddiffynfeydd môr naturiol, cynnal a chadw ansawdd a llif dŵr a hybu poblogaethau o bryfed peillio hollbwysig. Mae traethau a thwyni yn bwysig i economi twristiaeth Cymru ac yn lleoliadau penigamp i hamddena a gwneud ymarfer corff yn yr awyr agored.

Bydd Twyni Byw yn cyfrannu at nodau llesiant y genedl fel a ganlyn:

- cefnogi arferion ffermio traddodiadol
- creu cyfleoedd economaidd i fusnesau
- hyfforddi a datblygu cenhedlaeth newydd o reolwyr amgylcheddol
- galluogi mwy o bobl i ddefnyddio a mwynhau'r twyni, gan hybu iechyd a llesiant yn ei dro.

## Cefnogwyr prosiect

Mae'r prosiect yn derbyn 75 y cant o gyllid o'r rhaglen Cymuned Ewropeaidd LIFE, gyda Llywodraeth Cymru'n darparu 25 y cant mewn ariannu cyfatebol. Cynlluniwyd i'r prosiect, a gychwynnodd ym Medi 2018, orffen erbyn Rhagfyr 2022.

### Cyswllt

E-bost: SoLIFE@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
Ffôn: 0300 065 3000
Gwefan: cyfoethnaturiol.cymru/TwyniByw

### Tîm prosiect

Rheolwr Prosiect: Kathryn Hewitt
Swyddog Cyllid & Gweinyddiaeth: Diane Farmery
Swyddog Prosiect & Monitro Gogledd Cymru: Leigh Denyer
Swyddog Prosiect & Monitro De Cymru: Laura Bowen

## Project supporters

The Sands of LIFE project has received 75% funding from the LIFE programme of the European Union, with the Welsh Government providing 25% match funding. The project, which started in September 2018, will run until December 2022.

### Contact

Email: SoLIFE@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
Telephone: 0300 065 3000
Website: naturalresources.wales/SandsofLIFE

### Project team

Project Manager: Kathryn Hewitt
Finance and Administration Officer: Diane Farmery
North Wales Project & Monitoring Officer: Leigh Denyer
South Wales Project & Monitoring Officer: Laura Bowen

SoLIFE: LIFE17 NAT/UK/000023

**Os hoffech chi'r cyhoeddiad hwn mewn fformat gwahanol, rhowch wybod inni, os gwelwch yn dda: ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk 0300 065 3000**

**If you would like this publication in a different format, please let us know: enquiries@naturalresourceswales.gov.uk 0300 065 3000**

NRW034 04/19

Argraffwyd ar bapur wedi'i ailgylchu 100%

Printed on 100% recycled paper

Cymru Wales

# Prosiect Twyni Byw

**Mae Twyni Byw yn brosiect cadwraeth pwysig sy'n adfywio twyni tywod ar hyd a lled Cymru. Bydd yn ail-greu symudiad naturiol twyni er mwyn adfywio cynefinoedd sy'n gartref i rai o'n bywyd gwyllt mwyaf prin.**

**Bydd y prosiect £4 miliwn, dan arweiniad Cyfoeth Naturiol Cymru, yn adfer bron i 2400 hectar o dwyni tywod ar draws pedair Ardal Cadwraeth Arbennig, ar ddeg safle ar wahân yn y wlad:**




## Safleoedd prosiect Twyni Byw

| Ardal Cadwraeth Arbennig | Safleoedd prosiect Twyni Byw | Arwynebedd (ha) |
|---|---|---|
| Y Twyni o Abermenai i Aberffraw | Tywyn Aberffraw | 337 ha |
| | Cwningar Niwbwrch | 1289 ha |
| | Morfa Dinlle | 245 ha |
| Morfa Harlech a Morfa Dyffryn | Morfa Harlech | 578 ha |
| | Morfa Dyffryn | 484 ha |
| Twyni Bae Caerfyrddin | Lacharn - Twyni Pentywyn | 796 ha |
| | Arfordir Pen-bre | 288 ha |
| | Twyni Whitffordd | 122 ha |
| Cynffig | Cynffig | 716 ha |
| | Merthyr Mawr | 474 ha |